

**Cofnodion wedi'u cadarnhau o
Gyfarfod Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru
a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar
Ddydd Mawrth 21 Gorffennaf 2026 am 10:30 – 14:00.
Trwy Microsoft Teams/wyneb yn wyneb yn The Willowford**

Aelodau:		
Ian Green (Cadeirydd)	(IG)	Cadeirydd Annibynnol
Susan Elsmore	(SE)	Aelod Lleyg
Abigail Harris	(AH)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)
Paul Mears	(PM)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)
Shameem Nawaz	(SN)	Aelod Lleyg
Suzanne Rankin	(SR)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF)
Mandy Rayani	(MR)	Aelod Lleyg
Carol Shillabeer	(CS)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Paul Worthington	(PW)	Aelod Lleyg
Dirprwyon:		
Shaun Ayres	(SA)	Cyfarwyddwr y Cyfarwyddwr Cyflenwi: Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDD)
Robert Holcombe	(RH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)
Nicola Johnson	(NJ)	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)
Aelod Cyswilt:		
Stacey Taylor	(ST)	Dirprwy Brif Gomisiynydd a Chyfarwyddwr Cyllid a Gwerth
Hefyd yn Bresennol:		
Carole Bell	(CB)	Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd
Iolo Doull	(ID)	Cyfarwyddwr Meddygol
Aaron Fowler	(AF)	Ysgrifennydd y Pwyllgor
Georgina Galletly	(GG)	Cyfarwyddwr Cynllunio a Strategaeth Gorfforaethol
Claire Harding	(CH)	Dirprwy Gyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwylans a Rhaglenni Cenedlaethol
Sue O'Leary	(SO)	Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed
Melanie Wilkey	(MW)	Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol
Arsylwyr:		
Lee Leyshon	(LL)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Rachel Marsh	(RM)	Dirprwy Brif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST)
Angela Mutlow	(AM)	Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Llais
Nick Wood	(NW)	Dirprwy Brif Weithredwr, GIG Cymru
Ymddiheuriadau:		
Juliet Brown	(JB)	Prif Gomisiynydd
Philip Kloer	(PK)	Prif Swyddog Gweithredol, BIPHDD
Nicola Prygodzicz	(NP)	Prif Swyddog Gweithredol, BIPAB
Nia Roberts	(NR)	Aelod Lleyg
Hayley Thomas	(HT)	Prif Swyddog Gweithredol, BIAP

Ross Whitehead	(RW)	Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambwlans a Rhaglenni Cenedlaethol
----------------	------	--

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	1. Materion Rhagarweiniol
JCC26/019	Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau, y mynychwyr a'r arsylwyr i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu, a gynhaliwyd yn gyhoeddus, a gwnaed y cyflwyniadau. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i recordio'r cyfarfod, a bydd y recordiad ar gael ar wefan Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC) yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni.
JCC26/020	Ymddiheuriadau am Absenoldebau Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldebau fel yr uchod.
JCC26/021	Datganiadau o Fuddiannau Ni nodwyd datganiadau o fuddiant cyn nac yn ystod y cyfarfod.
JCC26/022	Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Mai a Materion yn Codi Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu a gynhaliwyd ar 26 Mai 2026 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.
JCC26/023	Cofnod o'r Camau Gweithredu Cydnabu'r Aelodau fod y 3 cam gweithredu ar y cofnod o'r camau gweithredu oll wedi'u hadrodd fel rhai sydd wedi cau: - JCC25/018 Rheoli risg – Cafodd y mater hwn ei gynnwys fel eitem 4.3 ar yr agenda. - JCC25/021 Diweddariad ar opsiynau ymateb gwledig – Cafodd hyn ei gynnwys o fewn eitem 2.3 ar yr agenda gyda diweddariad pellach i'w roi ym mis Tachwedd 2026. - JCC26/010 Sefyllfa Ariannol – Trafodwyd adroddiad Mis 2 yn Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (PPF) mis Gorffennaf, a chafodd adroddiad mis 3 ei gynnwys fel eitem 3.1 ar yr agenda.
	2. Cyflwyno'r Cefndir
JCC26/024	Adroddiad y Cadeirydd Derbyniwyd Adroddiad y Cadeirydd, nododd yr aelodau ganslo Sesiwn Strategaeth y Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin oherwydd argaeledd aelodau, a'r gweithdy dilynol a fynychwyd gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol ac Aelodau Lleyg i drafod rheoli risg. Roedd yr Adroddiad Atebolrwydd a'r Cyfrifon Blynnyddol wedi'u cymeradwyo yng Nghyfarfod Bwrdd Cyhoeddus Arbennig BIPCTM ddydd Llun 29 Mehefin 2026 ac wedi hynny fe'u cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Nododd yr aelodau ymhellach fod arfarniadau Aelodau Lleyg wedi digwydd. Ymhellach, roedd Juliet Brown wedi cynnal sesiynau briffio gyda staff CBCGC ac wedi cwrdd â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn y cyfnod byr ers dod i'w swydd fel Prif Gomisiynydd CBCGC ac yn ddiweddar roedd wedi cynrychioli'r CBCGC, gyda Melanie Wilkey ac Iolo Doull, yn ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar ofal iechyd trawsffiniol yn San Steffan.

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: • Nodi'r adroddiad.
JCC26/025	Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau gan yr Is-bwyllgorau Daeth yr Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau gan Is-bwyllgorau CBCGC i law ac fe'u derbyniwyd fel rhai wedi'u darllen. Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO) (29.06.26) Rhannwyd fideo Gymraeg, gydag isdeitlau Saesneg, wedi'i recordio ymlaen llaw, yn disgrifio taith claf gyda dialysis cartref. Roedd stori'r claf yn tynnu sylw at effaith ymgysylltiad cleifion â'u gofal eu hunain, pwysigrwyd bod yn gefn i gleifion wrth iddynt godi pryderon a rhannu adborth ar sut i wella gwasanaethau, defnyddio'r iaith a ffefrir gan glaf yn ystod ei gyfnod gofal, pwysigrwyd therapiau cartref a hunan-ofal lle bo hynny ar gael, a sut y gall hyn effeithio ar ansawdd bywyd cleifion. Derbyniwyd stori'r claf yng nghyfarfod Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau mis Mehefin 2026. Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (PPF) (02.07.26) Nododd yr aelodau fod y gofrestr risg wedi'i thrafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ym mis Gorffennaf 2026. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar sut y disgrifiwyd risgiau ambiwlans a'r angen i ddod â phrofiad cleifion i'r amlwg. Cydnabuwyd bod Cofrestr Risg y Sefydliadol wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r adborth a rannwyd. Trafododd yr aelodau y broses adrodd ar safonau ambiwlans newydd. Cadarnhaodd RM fod gwaith ar y gweill yn fewnol gydag Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST) i wneud y broses adrodd yn gliriach. Ychwanegodd RM y byddai Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn hapus i ymgysylltu ymhellach er mwyn deall anghenion proses adrodd comisiynydd yr Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Nodwyd hefyd fod yr Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid wedi derbyn diweddariad ar ddatblygiad Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) CBCGC 2027-30. Nododd yr aelodau y byddai'r strategaeth glinigol genedlaethol yn ddibyniaeth bwysig, er bod amserlenni yn awgrymu efallai na fydd ar gael mewn pryd i hysbysu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn llawn. Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) Lletyol Darparwyd diweddariad llafar byr ynghylch cymeradwyo Adroddiad Atebolrwydd a Chyfrifon Blynnyddol CBCGC ym mis Mehefin [a nodwyd fel rhan o Adroddiad y Cadeirydd (uchod)]. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: • Nodi cynnwys yr adroddiadau • Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd.
JCC26/026	Adroddiad y Prif Gomisiynydd Derbyniwyd Adroddiad y Prif Gomisiynydd. Nodwyd presenoldeb y Prif Gomisiynydd, y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol yn ymchwiliad Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Senedd y DU i ofal iechyd trawsffiniol. Cyflwynwyd

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	tystiolaeth ynghylch comisiynu a darparu gwasanaethau y mae cleifion o Gymru yn eu defnyddio yn Lloegr. Nododd yr aelodau fod Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd wedi mynychu sesiynau tebyg ar 23 Mehefin 2026. Darparwyd diweddariad mewn perthynas â'r cytundeb hirdymor (LTA) rhwng BIPCAF a CBCGC. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylid gweithredu'r cytundeb hirdymor, gan gynnwys y penderfyniad a wnaed yn flaenorol gan y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Mawrth 2026 i gymhwyso gostyngiad effeithlonrwydd o 2% i gwantwm cytundeb hirdymor 2026-27. Adroddwyd am y pryder sylweddol ynglŷn â thorri targedau o fewn gwasanaethau aelodau artiffisial a chyfarpar a thechnoleg gynorthwyol electronig, hefyd am y cynlluniau adfer sy'n cael eu datblygu mewn perthynas â thoriadau yng ngwasanaeth llawfeddygaeth blastig De-orllewin Cymru. Nododd yr Aelodau hefyd ddiweddariadau penodol y gyfarwyddiaeth gomisiynu fel a ganlyn: Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol Nododd yr aelodau faterion cynaliadwyedd parhaus a oedd yn effeithio ar berfformiad o ganlyniad i bwysau ehangach ar y system a bod disgwyl ymateb achredu JACIE (Cyd-bwyllgor Achredu y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Therapi Cellog a'r Grŵp Ewropeaidd ar gyfer Trawsblannu Gwaed a Mêr) yn fuan yn BIPCAF. Clywodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu fod CBCGC wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cefnogaeth i'r buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol sy'n ofynnol i sicrhau achrediad. Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwylans a Rhaglenni Cenedlaethol Nododd yr aelodau y byddai cynigion ar gyfer opsiynau Ymateb Gwledig yn cael eu derbyn yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Tachwedd. Rhannwyd y gweithgaredd ymgysylltu arfaethedig cyn mis Tachwedd 2026 gyda'r Cyd-bwyllgor Comisiynu. Fe wnaeth AM dynnu sylw at yr angen i sicrhau bod ymgysylltiad â'r cyhoedd yn ystyrlon a'r fformat yn briodol. Cytunwyd bod angen datblygu pecyn gwybodaeth a chynllun ymgysylltu ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Byrddau Iechyd a Llais, gydag adolygiad canol cyfnod y cytunwyd arno i ystyried adborth ac i addasu cynlluniau ymgysylltu yn unol â hynny. Cadarnhaodd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru eu parodrwydd i fod yn rhan uniongyrchol o'r gwaith ymgysylltu a nododd NJ y byddai Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn hoffi bod yn rhan o waith dylunio ac ymgysylltu'r gwasanaeth. Cododd AM bryderon ynghylch colli ymgysylltu Ymateb Gwledig ymhlith gweithgareddau ymgysylltu eraill y Byrddau Iechyd, a gofynnodd am ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein, pecynnau gwybodaeth hygyrch, a chynnwys astudiaethau achos er mwyn egluro cynigion i'r cyhoedd. Trafododd yr aelodau yr angen am eglurder ynghylch strwythur y grwpiau sy'n ymwneud a'r Adolygiad o Wasanaethau Cludo Cleifion Di-frys (NEPTS) â'r ffocws presennol ar effeithlonrwydd, cynhyrchiant ac ymgysylltu cyhoeddus sylweddol i sicrhau dealltwriaeth o'r newidiadau a wneir. Cytunodd CH i rannu manylion y trefniadau sicrwydd comisiynu cryfach sydd ar waith all-lein.

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	Cytunodd yr aelodau ar yr angen am eglurder ar lwybrau mewn perthynas â chanolfannau cymorth clinigol ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a'r angen am ddiweddariad mewn cyfarfod yn y dyfodol. Nododd RH yr angen am gynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y Gweithdy Desg Trawma Mawr, a dywedodd CH y byddai'n cysylltu â'r Rhwydwaith i sicrhau hyn. Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed Adroddodd SO fod 5 claf ar ôl o fewn St Andrews Healthcare gyda chynlluniau ar waith i drosglwyddo 2 ohonynt i ddarparwyr eraill. Roedd gwaith yn parhau i sicrhau darpariaeth amgen ar gyfer y 3 claf sy'n weddill. Er mwyn tawelu meddwl yr aelodau, ychwanegodd SO fod GIG Lloegr wedi gwneud trefniadau amgen ar gyfer y tymor byr i ganolig, a chadarnhaodd fod tîm CBCGC yn cynnal ymweliadau rheolaidd ynghyd â goruchwyliaeth a rheolaeth achosion cadarn er mwyn sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal o safon dda. Adroddwyd bod adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau rhywedd wedi dechrau, gyda'r bwriad o gwblhau'r adolygiad erbyn diwedd 2026 a chynhyrchu argymhellion erbyn mis Mawrth 2027. Byddai darparwyr a rhanddeiliaid eraill yn cymryd rhan lawn yn y broses. Trafododd yr aelodau y penderfyniad arfaethedig ynghylch buddsoddiad cyfalaf yng Nghlinig Caswell, a nododd NJ yr angen am gynllun wrth gefn pe na bai cyllid yn cael ei sicrhau. Ychwanegodd SO fod y penderfyniad ar fin cael ei wneud ac y byddai'r Adolygiad Strategol yn ystyried sicrhau trefniadau comisiynu cynaliadwy ar gyfer y llwybr gwasanaethau diogel, gan gynnwys cyfleusterau arwahanrwydd ychwanegol. Bydd ar y gwaith hwn angen cyfranogiad BIPBA a darparwyr. Nododd AH y pwyntiau a wnaed a phwysleisiodd yr angen i sicrhau bod yr Adolygiad Strategol yn darparu digon o gapasiti ar gyfer cleifion o Gymru, yn ystyried yr ystâd a'r seilwaith presennol ac yn darparu amgylcheddau therapiwtig sy'n diwallu anghenion y grŵp cleifion. Cydnabuwyd bod yr angen am gyllid cyfalaf yn risg. Nododd SR yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwasanaeth rhywedd i blant a phobl ifanc; cytunodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol rhannu diweddariad mwy manwl yn un o gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Comisiynu yn y dyfodol. CAM GWEITHREDU: Darparu diweddariad ar y gwasanaeth i Blant a Phobl Ifanc yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Medi. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: • Nodi'r adroddiad.
JCC26/027	3. Cyflawni Cynllun CBCGC Adroddiad Perfformiad Ariannol CBCGC – Mis 03 (26-27) Derbyniwyd Adroddiad Perfformiad Ariannol Mis 03. Nododd yr aelodau fod sefyllfa ariannol CBCGC ar gyfer 2026-27, fel yr adroddwyd ar gyfer Mis 3, yn dangos tanwariant o £1.3m hyd yma o gymharu â chynllun ariannol y Cynllun Comisiynu Integredig, gyda rhagolwg o danwariant o £0.5m ar ddiwedd y flwyddyn. Cydnabuwyd bod adolygiad manwl o'r rhaglen arbedion diwedd blwyddyn gwerth £16.2m wedi'i gynnal cyn y cyfarfod.

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch a oedd y targed arbedion yn un y gellid ei gyflawni, gan nodi'r diffyg naratif clir ar gyfer cyflawni'r nod erbyn diwedd y flwyddyn a'r angen am reoli risg trylwyr. Cytunwyd y byddai'r Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn craffu ar y cynlluniau ac yn canolbwyntio ar wydnwch ariannol, gyda diweddariad manwl i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Medi, gyda gwaith parhaus i nodi cyfleoedd a mesurau lliniaru pellach. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: • Nodi'r sefyllfa ariannol diwedd-mis ar gyfer Mis 3 - 2026/27.
JCC26/028	Adroddiad Perfformiad CBCGC Derbyniwyd Adroddiad Perfformiad CBCGC ar gyfer Mis 3. Nododd y Cyd-bwyllgor Comisiynu fod cyfanswm rhestr aros cleifion mewnol ar gyfer llawdriniaethau plastig wedi cynyddu dros y 6 mis blaenorol. Roedd y cyfarfodydd perfformiad misol yn parhau i gael eu cynnal, ac er na chafodd cynllun cyflawni 2026-27 ar gyfer llawdriniaethau plastig ei rannu, dealltwriaeth CBCGC oedd y rhagwelid y byddai cleifion yn aros yn hirach na 104 wythnos yn absenoldeb rhestrau ychwanegol. Trafododd yr aelodau broses uwchgyfeirio estynedig y gwasanaeth, y materion a oedd wedi'u datrys, a'r heriau cyfredol yn ymwneud â throsglwyddo contract a chynaliadwyedd. Nododd yr aelodau fod cynllun gweithredu wedi'i dderbyn mewn ymateb i uwchgyfeirio Lefel 2 gwasanaeth llawdriniaeth gardiaidd BIPCAF, a fyddai'n cael ei adolygu gan dîm comisiynu CBCGC. Trafododd yr aelodau y broses uwchgyfeirio bresennol a'r angen i sicrhau nad yw gwasanaethau yn cael eu gadael wedi'u huwchgyfeirio'n ddiangen, ac i sicrhau bod lefelau ymyrraeth a'r meini prawf ymadael yn glir. CAM GWEITHREDU: Cynnal adolygiad o'r broses uwchgyfeirio ac egluro'r llwybrau allan o uwchgyfeirio gyda diweddariad i'w ddarparu yn y cyfarfod nesaf. Trafodwyd gostyngiad mewn gweithgarwch cleifion allanol ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau o'i gymharu â'r llynedd, yn enwedig llawfeddygaeth gardiaidd a llawfeddygaeth baediatrig, a chytunwyd y byddai tîm CBCGC yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos er mwyn cefnogi rhagolygon cadarn. Hefyd, trafododd yr aelodau gyflwyniadau'r Byrddau Iechyd am gyllid ychwanegol i gefnogi'r cynllun adfer gofal arfaethedig, gan nodi'r flaenoriaeth i fynd i'r afael â meysydd sydd â thua dwy flynedd o aros. Mae angen i CBCGC gydweithio'n agos â Byrddau Iechyd i sicrhau'r moderneiddio a'r trawsnewid angenrheidiol o'r cyllid hwn a nodwyd y byddai'r mater yn cael ei amlygu mewn cyfarfod Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol (CCLG) yn y dyfodol i sicrhau bod CBCGC yn darparu mewnbyn priodol. Mewn perthynas â gwasanaethau ambiwlans, trafododd yr aelodau: • Y gwahaniaeth sylweddol mewn canrannau a adroddwyd yn nhablau'r gwasanaethau ambiwlans yn yr adroddiad. • Y cynnodau aros hir parhaus am Wasanaethau Cludo Cleifion Di-frys a theithiau y rhoddwyd y gorau iddynt a'r angen i gynnwys patrymau defnydd a dadansoddiadau rhanbarthol. • Y gwaith sy'n cael ei wneud trwy integreiddio gwell â chofnodion cleifion y Bwrdd Iechyd, gan leihau cludiant diangen.

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	- Yr angen am ddadansoddiad o alwadau 111 a defnydd o'r wefan. Cadarnhaodd RM fod Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru wedi rhoi'r gorau i hyrwyddo'r wefan oherwydd gwirwyr symptomau sydd wedi dyddio, gyda chynlluniau i ail-lansio offer wedi'u diweddarau ym mis Medi 2026 ac i hyrwyddo mynediad digidol fel rhan o strategaeth Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Roedd gwaith yn cael ei wneud i edrych ar y metrigau adrodd, ansawdd data a'r broses adrodd, a fyddai ar gael mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Nododd SR y broses barhaus o fonitro ymateb cymunedol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a'r angen i gymharu a dilysu data (<i>triangulate</i>) yn ymwneud â throsglwyddo cleifion ambiwlans ac ymateb cymunedol yn y rhanbarthau ffin a darparu. Dywedodd NW fod angen i CBCGC fod yn eglur yn yr hyn y mae'n gofyn i Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ei gomisiynu ar eu rhan, er mwyn sicrhau bod CBCGC yn comisiynu ar gyfer ansawdd ac i Fyrddau Iechyd gymryd cyfrifoldeb am alluogi Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i ddarparu'r gwasanaethau a gomisiynwyd. Nodwyd pwysigrwydd yr adolygiad strategol yn hyn o beth. CAM GWEITHREDU: Cynnal adolygiad o fetrigau fframwaith perfformiad ambiwlansys cyn cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Comisiynu. Nododd yr aelodau fod angen mwy o eglurder yn adran ansawdd yr adroddiad, a bod angen gwella hyfforddiant statudol/gorfodol a chydymffurfiaeth adolygiad datblygiad personol staff. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: Nodi'r wybodaeth a nodir yn y papur a'r adroddiad perfformiad manwl a rennir yn Atodiad 1.
JCC26/029	Cynllun Blynnyddol CBCGC 2026-27 – Cynnydd yn erbyn Cyflawni yn Chwarter 1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan GG. Nododd yr aelodau y canlynol: - Cafwyd sicrwydd ynghylch y cynnydd yn erbyn Cynllun Blynnyddol 2026-27 CBCGC (y cynllun) ar ddiwedd mis Mai 2026 trwy'r Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a'r Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol. - Bod pob maes blaenoriaeth strategol wedi gwneud cynnydd yn Chwarter 1, gyda'r sylfeini craidd ar gyfer cyflawni bellach yn eu lle a phob cyflawniad ar gyfer Chwarter 1 naill ai ar y trywydd iawn neu wedi'i gwblhau. - Y prif risg a'r her sy'n ymwneud â mynediad at ddata/dadansoddi data a'r gallu o fewn CBCGC i gyflawni'r gwaith dadansoddi data sydd ei angen ar gyfer prosiectau mwy, gan bwysleisio'r angen i ystyried adnoddau ychwanegol neu gymorth arbenigol. - Dibyniaeth ar gynlluniau clinigol cenedlaethol a gwaith partneriaeth ranbarthol. Trafododd yr aelodau y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun, effaith rhaglenni cenedlaethol ar gyflawni'n lleol a'r angen am amcanion clir a dibyniaeth allweddol megis cynllun gwasanaethau clinigol cenedlaethol GIG Cymru, gwaith partneriaeth ranbarthol ac ymyriadau cenedlaethol.

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	Er gwaethaf y cynnydd parhaus o fewn adolygiad Newyddenedigol CBCGC, cododd CS bryderon ynghylch dyblygu a diffyg cynrychiolaeth y Bwrdd Iechyd mewn gwaith mamolaeth a newyddenedigol cenedlaethol a'r angen i gynllunio lleol fynd rhagddo ochr yn ochr â'r gwaith hwn. Rhoddodd GG ddiweddariad hefyd ar ddatblygiad Cynllun Tymor Canolig Integredig CBCGC (2027-30) gan ganolbwyntio ar fwriadau comisiynu strategol, cyfyngiadau ariannol a'r angen am flaenoriaethu ac asesu risg yn seiliedig ar dystiolaeth. Nododd yr aelodau fod bwriadau comisiynu yn cael eu llunio'n fewnol ac y byddent yn cael eu rhannu gydag aelodau'r Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth CBCGC Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: • Nodi'r cynnydd yn erbyn meysydd blaenoriaeth strategol Cynllun Blynnyddol 2026/27 CBCGC ar ddiwedd Chwarter 1 2026 • Derbyn sicrwydd bod y gwaith cyflawni wedi dechrau ar draws pob maes blaenoriaeth a'i fod yn parhau i fod ar y trywydd iawn. • Nodi'r statws Coch Ambr Gwyrdd (RAG) a adroddwyd. • Nodi'r hyder cyflawni ar gyfer pob maes blaenoriaeth strategol gan nodi lliniaru risgiau a dibyniaeth allweddol. • Nodi y bydd y sefyllfa ffurfiol ar ddiwedd Chwarter 1 sy'n manylu ar gynnydd yn erbyn pob maes o'r Cynllun Blynnyddol yn cael ei chynnwys yn Adroddiad Perfformiad Integredig CBCGC. • Nodi a thrafod y cais am gymorth dadansoddol gan Fyrddau Iechyd a rhoi cyfarwyddyd ar sut i fwrw ymlaen ag ef.
	4. Llywodraethiant, Sicrwydd a Phenderfyniadau
JCC26/030	Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol Derbyniwyd yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol. Nododd yr aelodau y canlynol: • Bod elfennau allweddol fframwaith llywodraethu CBCGC wedi'u cymeradwyo i'w cyflwyno i'r Byrddau Iechyd i'w cymeradwyo yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Mai 2026 ac ers hynny eu bod wedi'u cymeradwyo gan bob un o'r saith Bwrdd Iechyd. Y rhain oedd Rheolau Sefydlog CBCGC, y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, y Weithdrefn ar gyfer Trin Buddiannau a Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor. • Bod Adroddiad Atebolrwydd CBCGC wedi'i gyflwyno i Is-bwyllgorau CBCGC ym mis Ebrill 2026 er mwyn i Aelodau Lleyg ddarparu sylwadau ac adborth, yna cyflwynwyd drafft i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) BIPCTM ar 19 Mai 2026 cyn ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Mai 2026. Cyflwynwyd y drafft cymeradwy i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 29 Mehefin 2026 er mwyn gwneud argymhelliad i BIPCTM i'w gymeradwyo. Cyflwynwyd y drafft terfynol i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru ar 29 Mehefin 2026 a'i gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol BIPCTM ar 30 Mehefin 2026. • Bod amserlen o ddiweddariadau blynnyddol gyda Byrddau Iechyd bellach wedi'i chytuno, a fyddai'n digwydd rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2026. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: • Nodi'r adroddiad, a'r diweddariadau a rannwyd, gan gydnabod y sicrwydd a ddarparwyd.
JCC26/031	Canlyniadau Hunanasesu Effeithiolrwydd Pwyllgorau Blynnyddol 2025-26

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	Derbyniwyd yr adroddiad a nododd yr aelodau fod arolygon hunanasesu effeithiolrwydd wedi'u dosbarthu yn 2025-26, ynghyd â'r prif themâu a ddeilliodd o'r adborth a gafwyd a diweddariadau yn ymwneud ag argymhellion adolygiad 2024-25. Nododd AF mai'r thema gyffredin yn adroddiadau 2024-25 a 2025-26 oedd cryfhau prosesau ysgrifennu adroddiadau, a'r angen i gydbwyso'r gofyniad am wybodaeth a data manwl â dymuniad y Cyd-bwyllgor Comisiynu am adrodd strategol lefel uchel sy'n ymdrin ag effeithiau o ran ansawdd a chanlyniadau i gleifion. Nodwyd bod JB yn gweithio gyda chydweithwyr i ail-raddnodi'r lefel o fanylion i'w hymgorffori mewn papurau yn y dyfodol. Diolchodd y Cadeirydd i AF am gyflwyno'r adroddiad ac anogodd yr aelodau i herio ceisiadau lle roedd maint yr wybodaeth yn ymddangos yn ormodol neu heb ddigon o ffocws. Pwysleisiodd y Cadeirydd y dylai'r aelodau fod yn glir ynghylch y data a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi penderfyniadau comisiynu priodol. Gofynnwyd i'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol edrych ar enghreifftiau o arferion gorau wrth ysgrifennu adroddiadau ym mhob rhan o GIG Cymru a GIG Lloegr gyda'r bwriad o wella ansawdd yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu. Disgwyliwyd i hon fod yn broses ailadroddus. Tynnodd AF sylw at y ffaith bod presenoldeb digonol Prif Swyddogion Gweithredol yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgorau wedi'i godi fel thema reolaidd yn yr adroddiad, yn enwedig yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau, sydd â dim ond un Prif Swyddog Gweithredol yn aelod ar hyn o bryd. Ychwanegodd y Cadeirydd fod mewnbyn Prif Swyddogion Gweithredol yn hynod werthfawr ac effeithiol ac wedi cynorthwyo craffu a gwneud penderfyniadau. Byddai strwythurau presenoldeb yn cael eu hadolygu, er y cydnabuwyd y byddai angen adolygu Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor er mwyn gwneud hynny. Gwahoddodd AF adborth all-lein gan aelodau sy'n Brif Swyddogion Gweithredol, gan nodi bod yr heriau system presennol i Brif Swyddogion Gweithredol a'u capasiti yn gwneud hon yn sefyllfa anodd i'w rheoli. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: • Nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun gweithredu Arolwg Effeithiolrwydd Pwyllgorau Blyneddol 2024-2025 yn Atodiad 1. • Nodi'r crynodeb o themâu yr Arolygon Effeithiolrwydd Pwyllgorau Blyneddol ar gyfer 2025-2026 yn yr adroddiad hwn. • Cytuno ar y cynllun gweithredu ar gyfer 2025-2026 yn Atodiad 2.
JCC26/032	Rheoli Risg 4.3.1 Cofrestr Risg Sefydliadol CBCGC Cyflwynwyd Cofrestr Risg Sefydliadol ("ORR") CBCGC fel ag yr oedd ym mis Mai 2026. Ar y Gofrestr Risg Sefydliadol roedd gan 13 o risgiau sgôr o 15 neu fwy (risgiau eithafol). Nododd yr aelodau y canlynol: • Un risg newydd: Risg 96 - Cyflawni a chynaliadwydd Comisiynu - Capasiti - Gwasanaeth Ambiwylans Brys (EMS) mwy diogel, o ansawdd uchel, gwerthfawr, integredig a thecach. • Nid oedd unrhyw risgiau wedi'u huwchgysirio • Roedd dau risg wedi'u llacio: Risg 77 - Comisiynu digon o gapasiti Gwasanaethau Ambiwylans Brys; Risg 91 - Gwasanaeth Anemia Etifeddol - Capasiti yn ne Cymru. • Amlygwyd chwe risg newydd sy'n dod i'r amlwg.

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	- Roedd un risg wedi'i gau: Risg 78 - Y defnydd o Gapasiti Ambiwlans Brys Trafododd yr aelodau yr angen i aralleirio Risg 96. Byddai hyn yn cael ei drafod gyda'r arweinydd comisiynu perthnasol. Nododd SR sefydlogrwydd risgiau a'r angen i adolygu effeithiolrwydd mesurau lliniaru yn barhaus. Nodwyd y byddai risgiau sy'n dod i'r amlwg yn parhau i gael eu datblygu gydag arweinwyr gwasanaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu disgrifio a'u sgorio'n briodol. Lle bo hynny'n briodol, byddai risgiau yn cael eu gosod fesul thema hefyd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol i'r Gofrestr Risg Sefydliadol. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: Nodi'r adroddiad. Nodi'r gwaith a wnaed i wella'r Gofrestr Risg Sefydliadol. Cymeradwyo Cofrestr Risg Sefydliadol CBCGC fel ag yr oedd ar 31 Mai 2026. 4.3.2 Rheoli Risg a Sicrwydd Cyflwynwyd fframwaith rheoli risg a sicrwydd newydd gan gynnwys Gweithdrefn Rheoli Risg, Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor (JAF), Adroddiad Templed a Risgiau Strategol Arfaethedig, Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg a Matrics. Roedd y dogfennau wedi'u drafftio i gefnogi'r gwaith o reoli ac adolygu risgiau sefydliadol a strategol CBCGC Nododd yr aelodau yr aliniad â phrosesau rheoli risg BIPCTM, fel corff lletyol, a'r adolygiad archwilio mewnol a drefnwyd a fyddai'n mireinio'r dogfennau ymhellach pe bai'n cael ei gymeradwyo. Yn ogystal, cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig edrych ar y dogfennau fel fframwaith byw ac esblygol a fyddai'n parhau i ddatblygu wrth i ddulliau rheoli risg CBCGC aeddfedu. Nodwyd bod yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau a'r Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid wedi argymhell cymeradwyo'r dogfennau a rannwyd gyda'r Cyd-bwyllgor Comisiynu i'w cymeradwyo. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: Gymeradwyo'r Weithdrefn. Cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor (JAF) ac adroddiad Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor (JAF). Cymeradwyo'r drafft terfynol arfaethedig Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg a Matrics. Cymeradwyo'r drafft terfynol Risgiau Strategol i'w cynnwys yn adroddiad Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor (JAF).
JCC26/033	Ymchwiliad Arena Manceinion

Cyfeirnod y Cofnod	Eitem ar yr Agenda
	Derbyniwyd yr adroddiad. Nododd yr aelodau drylwyredd y broses adolygu a gynhaliwyd a'r argymhellion canlynol: - Cynigion ar gyfer rhannu gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r diwydrwydd dyladwy a wnaed mewn ymateb i adroddiad Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST), ac argymhellion ar rolau a chyfrifoldebau priodol i ymateb i hyn, gan gynnwys rôl Llywodraeth Cymru. - Cynigion ar gyfer gohebiaeth i Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) ar yr ymateb ffurfiol i'r adroddiadau a dderbyniwyd, ynghyd â champau gweithredu y bydd eu hangen gan y sefydliad ar ôl i'r comisiynydd eu hystyried, yn benodol gan gynnwys manylion cymorth cydfuddiannol ledled y DU. Nododd yr aelodau y risgiau parhaus mewn perthynas â rhai argymhellion oherwydd cyfyngiadau ariannu, yr angen i fonitro'n barhaus ac i gyfathrebu â Llywodraeth Cymru i nodi rolau a chyfrifoldebau sefydliadol mewn perthynas â'r risgiau a nodwyd. Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: Nodi'r adroddiad. Cymeradwyo'r ffordd arfaethedig ymlaen.
	5. Er gwybodaeth
JCC26/034	Blaengynllun Busnes Nodwyd y Blaengynllun Busnes a byddai'n cael ei ddiweddarw i adlewyrchu'r busnes a drafodwyd yn ystod y cyfarfod (lle bo hynny'n briodol).
	6. Busnes i Gloi
JCC26/035	Unrhyw Fater Arall Nododd y Cadeirydd fod Diwrnod Datblygu Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau ar fin cael ei gynnal ar 7 Medi 2026 a gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor Comisiynu i'w fynychu. Nodwyd y byddai SR yn ymgymryd â rôl newydd yn GIG Lloegr a diolchwyd iddi am ei chefnogaeth a'i chyfraniad gwerthfawr i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn ystod ei chynnod fel aelod.
JCC26/036	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf Mae cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 22 Medi 2026.